# Ysgol Edern


Lôn Rhos,
Edern,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 8YW

01758 720272
llan.williams@edern.ysgoliongwynedd.cymru
www.ysgoledern.org
@YsgolEdern
/YsgolEdern


18.12.23

## Nadolig Llawen!

Diwedd tymor wedi cyrraedd, a pawb wedi blino'n lân! Rydym wedi cael tymor ofnadwy o brysur, yn llawn dysgu ac antur! Mae pawb bellach yn barod i gael amser i ymlacio a mwynhau dros gyfnod y Nadolig!



Dyma ddosbarth Cwmistir yn defnyddio'r bwrdd gwyn newydd sydd wedi cael ei brynu gyda'r arian a gasglwyd gan ein taith gerdded. Diolch o galon i chi am eich caredigrwydd, llwyddwyd i godi dros £1,700. Mae'r sgrin yn cael ei rhannu rhwng ddosbarthiadau Cwmistir a Porth Ysgaden, ac mae'r plant (a staff!) wedi gwirioni!

**Ymwelwyr**

Rydym wedi cael llawer o ymwelwyr draw dros yr hanner tymor diwethaf, mae Anti Nia a Lewis wedi bod atom i gynnal gwasanaeth, PC Rhiannon a Taran wedi bod draw i'n dysgu am ddiogelwch y we, ac mae Pudsey wedi bod draw i ddawnsio a chasglu arian!



Cofiwch y gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgol trwy ein gwefan, a'n gwefannau cymdeithasol. Dyma ambell i ddyddiad pwysig ar gyfer yr hanner tymor nesaf! Cliciwch yma i weld y calendr llawn.

| | |
|---|---|
| **08/01/24** | **Ysgol yn ail-agor** |
| **12/01/24** | **Nofio yn cychwyn** |
| **17/01/24** | **Ymweliad PC Rhiannon** |
| **12/02/24-16/02/24** | **Hanner Tymor** |
| **04/03/24-06/03/24** | **Caerdydd (Blwyddyn 6)** |
| **11/03/24 - 22/03/24** | **Pythefnos Stroliwch a Rholiwch** |
| **25/03/24-05/04/24** | **Gwyliau Pasg** |
| **08/04/24** | **HMS** |



Dyma griw Sportshall o ddosbarth Porth Ysgaden fu'n cystadlu ym Mhorthmadog yn ddiweddar! Llongyfarchiadau mawr i chi!

*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*

18.12.23

Platiad efo'r Plantos

Cyfle i bobl ein cymuned gael cinio cynnes a sgwrs efo'r plant - cadwch lygaid allan - mwy o wybdaeth i ddod yn fuan!



I Galeri Caernafon aeth plant Porthdinllaen i wylio Sioe Cyw eleni. Cafodd pawb hwyl yn gwylio'r sioe, ac roedd pawb yn dod yn ôl yn canu'r holl ganeuon newydd!

**Sioeau Nadolig**

Mae'r plant wedi bod wrthi'n ymarfer a pharatoi yn ddygn iawn dros yr wythnosau diwethaf i greu Sioeau Nadolig ar eich cyfer. Mae pawb wedi cael hwyl ar yr ymarfer, ac roedd y gwaith caled ar y diwedd yn werth i'w weld.
Roedd y neuadd dan ei sang yn y prynhawn a gyda'r nos, a braf oedd cael eich croesawu unwaith eto draw i'r ysgol. Diolch o galon i bawb am ddod, ac am gyfrannu, a phrynu raffl.

## Creaduriaid y Nadolig

Bu i ddosbarth Cwmistir a Phorthdinllaen fynd ati i gynhyrchu sioe 'Creaduriaid y Nadolig' ar ein cyfer. Roedd yn dilyn stori'r dylluan oedd eisiau deffro'r anifeiliaid sydd yn gaeafgysgu er mwyn iddynt gael dathlu'r Nadolig.









## SHREC

Shrec oedd cynhyrchiad dosbarthiadau Rhosgor a Porth Ysgaden. Roedd y stori'n dilyn anturiaethau Shrec a'r Mul i geisio achub y dywysoges Ffiona. Cawsom sbort a llond lle o chwerthin wrth ymarfer y sioe!







Be well ar ddiwrnod ar ôl y sioe na Cinio Nadolig? Diolch yn fawr i staff y gegin am baratoi cinio Nadolig bendigedig ar ein cyfer. Diolch hefyd i'r Cyngor Eco am benderfynu peidio defnyddio 'Cracyrs' eleni, ond yn hytrach am greu addurniadau ein hunain er mwyn ceisio achub yr amgylchedd!









*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*

18.12.23

**Ionawr 8**
**Ysgol yn ail-agor**

**EcoAmgueddfa**

Cafodd dosbarth Porth Ysgdaen gyfle i ymweld â'r Amgueddfa Forwrol yn Nefyn yn ddiweddar. Roedd yn rhan o ŵyl archeolegol Llŷn, a cafodd y plant weithdy ynghwmni Rhys Mwyn ac eraill o Brifysgol Bangor. Bu iddynt gael cyfle i edrych ar gryfder gwlân, creu blawd ac edrych ar emwaith o oes yr haearn! Diddorol dros ben!



**Diolchiadau**

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r ysgol dros y tymor diwethaf, mae eich cymorth a'ch cefnogaeth yn golygu llawer iawn i ni yma yn Ysgol Edern.








Mae Jo Scott (ASDA) wedi bod yn hael iawn gyda rhoddion tuag at rafflau gwahanol, diolch i'r Cyngor Ysgol am fod yn gyswllt cryf rhwng yr Ysgol ac ASDA. Diolch hefyd i Huw 'Tu Mewn' sydd wedi rhoi a gosod bwrdd gwaith newydd i ni yn y neuadd - mae o werth ei weld!
Diolch hefyd i chi rieni sydd wedi bod yn ein helpu, i werthu raffl, i gario cadeiriau ac i edrych ar oleuadau llwyfan - diolch!

*Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am y croeso dros y tymor cyntaf hwn. Mae wedi bod yn braf ofnadwy cael dod i'ch hadnabod i gyd!*

Diolch o galon,
**Mr Ilan Williams**
(Pennaeth Mewn Gofal)

